

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliiwch y lluniau yn y storïau hyn am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Mathew 1: 18-25

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Joseff yn ufuddhau  
i Dduw, hyd yn  
oed pan oedd  
pethau'n anodd.**

## Stori I Joseff a'r Angel

Roedd Mair a Joseff yn bwriadu priodi, ond un diwrnod dywedodd Mair wrth Joseff ei bod yn disgwyl babi. Gwyddai Joseff nad ef oedd y tad, felly, er ei fod yn caru Mair yn fawr iawn, penderfynodd na fyddai'n ei phriodi.

Un noson, cafodd Joseff freuddwyd. Daeth angel ato a dweud, "Paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd mae'r Baban wedi ei genhedlu o'r Ysbryd Glân."

Roedd hyn yn golygu nad dyn oedd tad y Baban – Mab Duw oedd Hwn!

**Mab \_\_\_\_\_ yw Iesu.**

(Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar goll)

Dywedodd yr angel wrth Joseff y dylai roi enw arbennig i'r Baban, sef Iesu.

Mae'r enw hwn yn un arbennig oherwydd ei ystyr yw 'Gwaredwyr'.

**Lliiwch y geiriau a lefarodd yr angel wrth Joseff.**

**"Gelwi Ef Iesu, am mai**

**Ef a wareda**  
**Ei bobl oddi wrth eu pechodau."**



Pan ddeffrodd Joseff o'i freuddwyd, ufuddhaodd i orchymyn yr angel ac fe briododd Mair.



DARLLENWCH  
Mathew 2: 1-8


Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Y Doethion yn  
ceisio dod o hyd  
i Iesu**

## Stori 2 Herod a'r Doethion

Roedd seren newydd wedi ymddangos yn yr awyr. Gwyddai Doethion (Seryddion) yn y dwyrain fod hyn yn arwydd y byddai Brenin newydd yn cael ei eni. Dyma nhw'n teithio i Jerwsalem i weld y Baban, er mwyn Ei addoli. Doedd y newyddion hyn ddim yn plesio Herod. Ef oedd y brenin a doedd wiw i neb arall gymryd ei le!

**Beth fyddai'r Doethion yn ei wneud ar ôl dod o hyd i'r Plentyn?**

Rhowch linell drwy'r ateb anghywir



### Ei ladd Ei addoli


Doedd Herod ddim yn gwybod ble'r oedd y Plentyn, felly gofynnodd i rai o'i gynghorwyr a wydden nhw ble'r oedd y Baban i gael ei eni. Dyma oedd eu hateb:

**Bethlehem.**

**Lliwiwch y geiriau a'r lluniau.**

Galwodd Herod y Doethion ato a dywedodd:

Ewch a chwiliwch yn fanwl am y Plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd Iddo, rhowch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd i'w addoli.



Ond mewn gwirionedd doedd Herod ddim eisiau addoli lesu.

Roedd e am Ei ladd!

Felly dechreuodd y Doethion ar eu taith i Fethlehem i chwilio am lesu.



DARLLENWCH  
Mathew 2: 9-12

Mae'r stori hon  
yn sôn am:

**Y Doethion yn**  
**dilyn y seren ac yn**  
**dod o hyd i lesu.**

### Stori 3 Y Doethion a Iesu

Wedi i'r Doethion adael Herod, fe welon nhw'r seren eto. Arweiniodd y seren nhw i'r union fan lle'r oedd Iesu! Roedd y Doethion yn hapus dros ben pan welon nhw'r seren. Cyn hir, bydden nhw'n cyfarfod â'r Un roedden nhw wedi teithio mor bell i'w weld!

**Sut oedd y Doethion yn teimlo pan welon nhw'r seren?**

**Rhowch linell drwy'r atebion anghywir.**

trist      blinedig      hapus

Cyn hir, cyrhaeddodd y Doethion ym Methlehem a dyma nhw'n gweld y ty lle'r oedd Iesu, Joseff a Mair yn aros. Pan welsant lesu, dyma nhw'n syrthio ar eu gliniau ac yn

Ei addoli Ef.

Lliwiwch y geiriau

Daeth y Doethion â thair anrheg i lesu - aur, thys a myrr. Roedd y rhain yn anrhegion drud - fel y rhai y bydd brenhinoedd yn eu cael. Gwyddai'r Doethion nad oedd Iesu yn blentyn cyffredin, felly roedd Ef yn haeddu'r anrhegion gorau possb!

Ar ôl aros rhyw ychydig, roedd hi'n bryd iddyn nhw adael. Cofiodd y Doethion fod Herod wedi gofyn iddyn nhw fynd nôl i Jerwsalem. Ond, roedd Duw yn gwybod fod Herod eisiau lladd lesu.

Dywedodd Duw wrth y Doethion mewn breuddwyd am fynd adref yn syth ac i beidio â dweud wrth Herod ble'r oedd Iesu.

Felly, i ffwrdd â nhw gan foliannu Duw am eu bod, o'r diwedd, wedi gweld Iesu, y Brenin newydd!






DARLLENWCH  
Mathew 2: 13-23

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Duw yn edrych  
ar ôl Ei Fab.**

## Story 4 Ffoi i'r Aifft

Roedd Herod wedi bod yn disgwyl i'r Doethion ddod nôl. Ond ddaethon nhw ddim! Roedden nhw wedi ufuddhau i Dduw ac wedi mynd adref yn syth. Aeth Herod yn gynddeiriog a phenderfynodd bod rhaid lladd pob bachgen bach ym Methlehem oedd dan ddwy flwydd oed!



Dyna beth ofnadwy i'w wneud!  
A'r cyfan am fod Herod yn poeni y gallai'r Plentyn hwn, un diwrnod, ddod yn Frenin yn ei le!

Siaradodd Duw gyda Joseff mewn breuddwyd. Dywedodd wrtho am ddianc gyda'i deulu i'r Aifft. Byddai'n ddiogel yno hyd nes y byddai Duw'n dweud wrtho am ddychwelyd.

Ymhen amser, bu farw Herod. Dywedodd Duw wrth Joseff ei bod bellach yn ddiogel iddyn nhw fynd nôl i Israel. Felly, gadawodd Joseff, Mair ac Iesu wlad yr Aifft ac aethant i Nasareth.

I ble'r aeth Joseff a'i deulu? N \_\_\_\_\_.

Dyma ble tyfodd Iesu'n ddyn, gan blesio Ei deulu, Ei gymdogion ac, yn bwysicaf oll, Duw, Ei Dad. Gyda help Duw, gallwn ninnau ddilyn Ei esiampl. Drwy'r cyfan i gyd, roedd Duw yn gofalu am Ei Fab. Roedd Duw yn fodlon gyda Mair a Joseff hefyd am iddyn nhw ufuddhau i'r cyfan roedd Duw wedi'i orchymyn.

**Lliwiwch y geiriau.**

**“Iesu, Mab Duw.”**

**Nadolig Llawen i chi.**

10

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm  
Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffôn i 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddir yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Powys LL53 6SH ☎ 01766 819120